



# Ti a Fi

## DYMA FI




### MATHEMATEG A RHIFEDD

- Casglu data am wahanol bethau—hoff liw, ffrwyth, lliw llygaid. Cofnodi ar ffurf marciau tali. Defnyddio'r wybodaeth –marciau tali a creu graff bloc neu graff lluniau o'r wybodaeth.
- Mesur— mesur ansafonol a safonol. Mesur hyd y law, braich o amgylch y pen, coes ac ati. Cofnodi hyn a r ffurf siart yn gywir. Gellir trafod—pwy yw'r talaf, byrraf. Gosod y plant mewn trefn.
- Defnyddio templed yr ysgerbwd—sawl asgwrn sydd ganddo. Tynnu rhai o'r esgyrn i ffwrdd—plant i gofnodi faint sydd ar ôl.
- Ymchwilio— Ai'r plentyn hynaf yw'r talaf a'r ieuengaf yw'r byrraf?
- Adnabod gwerth rhif at 10.
- Ffurfio rhifau at 10.
- Adio rhifau at 10.
- Tynnu rhifau at 10

.

### IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

- Dyddiadur wythnos—ceisio meddwl am drefn eu diwrnod a beth maent yn ei wneud.
- Creu rhestr o bethau maent yn ei hoffi ac yn eu casáu. Grwpiau tafod i roi rhesymau dros hyn.
- Ysgrifennu am eu rhieni—beth sydd yn gwneud eu rhieni nhw yn arbennig. Gallent greu llyfryn teulu a creu darlun teuluol.
- Creu cerdd am eu hunain neu am aelod o'r teulu. Defnyddio arddull Acrostig. Bwydo ansoddeiriau.
- Creu poster i gyflwyno eu hunain i weddill y dosbarth. Pwy ydynt, beth maent yn hoffi / casáu. Pwy yw eu ffrindiau, teulu. Gallent greu poster eu hunain neu defnyddio'r templed.
- Cael y disgyblion i feddwl am eu hoff frechdan. Creu cyfarwyddyd o sut i greu y frechdan gam wrth gam. Cofio sicrhau trefn cywir a clir.

### GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

- Trafod ein corff a beth sydd raid ei wneud i'w gadw yn iach. Edych ar fwyta'n iach a byw yn iach (Powerpoints) Creu pryd o fwyd iach.
- Edrych ar yr ysgerbwd—beth yw ei bwrpas—sawl asgwrn. Beth sydd angen ei wneud i gadw yn gryf a iach.
- Trafod gwahanol rannau o'r corff - organau ac esgyrn. Gellir edrych ar esgyrn Cyw-iar ac ysgerbwd dynol. Cymharu. Edrych ar pelydr x. Creu amlinelliad o gorff un o'r plant a'u cael nhw i geisio darlunio esgyrn yr ysgerbwd yn gywir.
- Edrych ar y synhwyrau. Gosod mwgwd a clustffonau ar y plant a gosod gwrthrych yn eu dwylo iddynt ddarganfod beth ydi o. Arbrofi gyda blasu a cyffwrdd. Gem Bingo y synhwyrau.
- Cylch bywyd dynol.
- Dysgu bod bodau dynol yn byw ac mae pethau byw yn bwyta, yfed, anadlu, tyfu ac atgenhedlu.

## IECHYD A LLES

- Arddangos lluniau i'r disgyblion sydd yn dangos gwahanol emosiynau. Cael y plant i drafod y gwahanol emosiynau a sut maent yn teimlo. Gem dyfalu—un plentyn i ddewis cerdyn a creu yr emosiwn ar ei wyneb– gweddill i geisio dyfalu sut mae'n teimlo. Amser cylch teimladau—beth sydd yn ein gwneud ni yn drist / hapus.
- Cardiau trafod teimladau—sut ydych chi yn meddwl y byddwch chi yn teimlo mewn gwahanol sefyllfaoedd?
- Cytuno ar reolau dosbarth
- Hylendid personol, cadw'n iach.
- Gofalu am yr amgylchedd lleol
- Diogelwch ar y ffyrdd

## Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

- Defnyddio print llaw, bysedd neu traed i greu llun ohonynt eu hunain.
- Peintio hunan bortread neu cael y plant i weithio fesul pâr a creu llun o'i gilydd.
- Creu darlun o'i hunain allan o ddefnydd.
- Creu symudiadau gwahanol—Dem Bones
- Creu synau i gyd-fynd a symudiadau'r sgerbwd.
- Gyda pastel creu llun wyneb fel Picasso.
- Gwneud modelau clai- artist Keith Haring.

## Y DYNIAETHAU

- Edrych ar Goeden deulu. Cael y plant i feddwl am goeden deulu eu hunain—gellir cael y rhieni i gynorthwyo yma. Creu coeden deulu syml eu hunain. Cofnodi ar arddull o'u dewis neu defnyddio rhai o'r templed.
- Dysgu eu cyfeiriad a darganfod sut mae tai yn wahanol.
- Dod o hyd i gartrefi ar fap a chynllwynio llwybr i'r ysgol Lluniadu map o'r llwybr i'r ysgol.
- Beth ydych yn hoffi ac yn casáu'r yn yr ysgol?

## CYMHWYSEDD DIGIDOL

- Creu lluniau emosiwn ar Purple Mash
- Rhaglen emosiwn Purple Mash
- Tynnu lluniau o'i wynebau a'r ipad a creu newidiadau arddull George Seurat

## PROFIADAU ARBENNIG A SYNIADAU RHIENI

## SYNIADAU'R PLANT YN SEILIEDIG AR Y LLYFR DARLLEN